Teithiau Cerdded Llandeilo

1 Pont gerrig drawiadol yw **Pont Llandeilo**, a adeiladwyd yn 1848 i gymryd lle pont o gerrig a phren a gafodd ei difrodi adeg llifogydd.

2 Mae'r enw **Ffairfach** yn deillio o'r ffair yr oedd yn draddodiad i'w chynnal yno. Roedd y llinell rheilffordd o Landeilo i Gaerfyrddin yn mynd heibio safle'r mart. Caewyd y llinell yn 1963, ond gellir gweld ei holion yn y caeau y tu ôl i'r mart o hyd. Roedd y rheilffordd yn brysur iawn adeg marchnadoedd da byw pob pythefnos, wrth i drenau arbennig gludo da a defaid.

3 **Eglwys Blwyf Sant Teilo** yw un o adeiladau amlycaf Llandeilo. Rhannwyd mynwent yr Eglwys yn ddwy o ganlyniad i gynlluniau gwella'r ffordd yn yr 1850au. Yn ystod y Canol Oesoedd, cynhaliwyd ffeiriau a marchnadoedd yn Stryd y Brenin, ar ochr ogleddol y fynwent.

4 Adeiladwyd **Tŷ Newton** yn 1660, ond gwnaed newidiadau sylweddol iddo yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cafodd y tiroedd o amgylch y tŷ eu tirlunio gan Capability Brown. Mae'n perthyn i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol erbyn hyn.

5 Castell Brenhinol Cymreig yw **Castell Dinefwr**, a oedd yn gadarnle i Dywysogion y Deheubarth yn y canol oesoedd hyd nes diwedd y drydedd ganrif ar ddeg. Yn ystod y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg arferai disgynyddion y tywysogion, sef teulu'r 'Rice' o Dŷ Newton, ddefnyddio'r castell yn achlysurol, a chodwyd hafdy ar y gorthwr er mwyn mwynhau golygfeydd ysblennydd Dyffryn Tywi a'r ardal.

6 **Eglwys Llandyfeisant** oedd addolfan Arglwyddi Dinefwr. Nid yw'r Eglwys wedi cael ei defnyddio fel addoldy ers 1961. Ailadeiladwyd yr Eglwys yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Eglwys o'r canol oesoedd cynnar oedd yno cyn hynny, ac fe'i crybwyllwyd yn 'Llyfr Llandaf' yn y 6ed ganrif. Y sôn yn lleol yw bod yr Eglwys wedi ei hadeiladu ar seiliau teml Rufeinig.

7 **Fferm Dinefwr** oedd prif fferm y stad. Byddai gardd y fferm wedi cyflenwi llysiau a ffrwythau ffres i Dŷ Newton.

8 **Parc y Ceirw**. Fel arfer mae'n bosibl i chi gael golwg dda ar fychod y danas a hen frîd y Gwartheg Gwynion ar diroedd Tŷ Newton neu o'r llwybr sy'n mynd drwy'r parc. (Ar agor yn yr haf tan 4.30p.m.)

9 **Mae Gwylfan Adar** ar gwr y goedwig lle ceir golygfeydd ardderchog o lifddolydd yr Afon Tywi. (Mae'r wylfan ar agor yr un oriau â'r parc ceirw.) Yn aml iawn mae'n bosibl gweld amrywiaeth o adar coetir ac adar gwlyptir.

10 **Gwarchodfa natur yw Castle Wood** sydd yn eiddo i Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gorllewin Cymru, ac sydd hefyd yn cael ei reoli ganddynt. Mae hon yn enghraifft o goedwig hynafol sy'n gynefin prin iawn ac yn gartref i amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid.

Mochyndaear
Badger

Llandeilo Country Walks

1 **Llandeilo Bridge**, an impressive single-span stone bridge, was built in 1848, replacing one made of stone and timber damaged by flooding.

2 **Ffairfach** derives its name from the fair that was traditionally held here. The railway line from Llandeilo to Carmarthen ran past the mart site. This line closed in 1963, but the track bed can still be seen in the fields behind the mart. The railway came into its own during the fortnightly livestock markets when special trains were run to transport cattle and sheep.

3 **The parish church of St Teilo** is a prominent building in Llandeilo. Its large churchyard was split in half by road improvements in the 1850s. In medieval times, fairs and markets were held in King Street, at the northern side of the churchyard.

4 **The present mansion at Newton House** dates back to 1660 but was altered considerably during the 18th and 19th centuries. The grounds surrounding the house were landscaped by Capability Brown. It is now owned by the National Trust.

5 **Dynevor Castle** is a royal Welsh castle, which was a stronghold of the medieval princes of Deheubarth until their defeat in the late 13th century. During the 18th and 19th centuries, the Rice family of Newton House, descendents of the princes, used the castle as a romantic ruin, a summerhouse was added to the top of the circular keep to allow splendid views of the Towy valley and surrounding areas.

6 **Llandyfeisant church** was used by the Lords of Dynevor as the family place of worship. It stopped being used as a church in 1961.It was entirely rebuilt in the 19th century, replacing an early medieval church, which was mentioned in the 6th century "Book of Llandaff". Local tradition has it that the church is built on the foundations of a Roman temple.

7 **Dynevor Home Farm** was the main estate farm. Its large walled garden would have supplied fresh vegetables and fruit to Newton House.

8 **The Deer Park**. Good views of both the Fallow deer herd and the ancient breed of White Park cattle are normally possible from the grounds of Newton House or from the path running through the parkland. (Open in summer until 4.30pm.)

9 **A bird hide** on the edge of the woodland provides fine views over the flood meadows of the River Towy. (The hide is subject to the same opening hours as the deer park.) A variety of woodland and wetland birds can often be seen.

10 **Castle Wood** is a nature reserve owned and managed by West Wales Wildlife Trust. It is a beautiful example of ancient woodland; a scarce habitat that provides a home for a wide variety of plant and animal life.



Hawlfraint y Goron © Crown Copyright LA09007L/97/01

Llwybrau Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire County Walks

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Amser Hamdden
Leisure Time

Llandeilo

Llandeilo

Llandeilo

Mae gan hanes diddorol yr ardal hon gysylltiadau milwrol, gwleidyddol, crefyddol, a masnachol ers dros 2000 o flynyddoedd. Mae'r teithiau a gynhwysir yn y daflen hon yn ymweld â'r holl safleoedd allweddol yn hanes hir a chyffrous yr ardal, sydd yn cynnwys hanes y tair bwrdeistref a safai yn yr ardal hon ar un adeg - Llandeilo Fawr, Dinefwr (ger Castell Dinefwr) a Newton (ger Tŷ Newton).

Mae tystiolaeth bod bryngaer hynafol o'r Oes Haearn wedi bodoli ym Mharc Dinefwr, a bod byddin Rhufain wedi sefydlu caer filitaraidd gerllaw tua'r flwyddyn 70 AD. Enwyd y dref ar ôl Eglwys Sant Teilo, ac mae'n debyg mai Teilo Sant ei hunan a'i sefydlodd yn ystod y 5ed ganrif AD. Roedd yr eglwys hon yn un o'r canolfannau eglwysig pwysicaf yng Nghymru yn ystod yr Oesoedd Tywyll, ac yn y Canol Oesoedd roedd yn stad bwysig o eiddo Esgob Tyddewi, a oedd yn cynnal marchnadoedd a ffeiriau ym yn rheolaidd.

Datblygodd Dinefwr yn ganolfan frenhinol bwysig ac iddi gysylltiadau â thywysogion dylanwadol teyrnas y Deheubarth. Tywysog enwocaf y Deheubarth oedd Rhys ap Gruffudd, yr Arglwydd Rhys (a fu farw yn 1197), a lwyddodd i atal concwest y Normaniaid. Mae gweddillion trawiadol Castell Dinefwr ar agor i'r cyhoedd, ac mae safle tref Dinefwr wedi ei gladdu o dan y coed sydd o amgylch y castell.

Daeth disgynyddion y tywysogion i amlygrwydd yn ystod cyfnod y Tuduriaid. Adeiladodd Syr Rhys ap Thomas y plasty cyntaf yn Newton ar safle'r fwrdeistref ganoloesol o'r un enw. Roedd yn un o gefnogwyr pennaf Henry Tudor, ac fe frwydrodd wrth ei ochr yn Bosworth. Adnabuwyd ei ddisgynyddion fel Arglwyddi Dinefwr, un o'r teuluoedd mwyaf eu bri yn Ne Cymru, ac roeddynt yn byw yn Nhŷ Newton. Bellach mae'r Tŷ a'i diroedd ysblennydd yn nwylo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.



Danas
Fallow deer

Llandeilo

This area has a fascinating history and has been associated with military, political, religious and commercial power for over 2000 years. The walks in this leaflet visit all the key sites in its long and dramatic story, which includes the histories of the three borough towns that once stood in this area - Llandeilo Fawr, Dinefwr (near Dinefwr Castle) and Newton (near the present Newton House).

There is evidence of a prehistoric Iron Age hillfort within Dinefwr Park, and during the 70s AD, the conquering Roman army established a military fort nearby. St Teilo's church, which has given the town its name, stands on the site of a monastery and church said to have been founded by St Teilo himself during the 5th century AD. It was one of the most important ecclesiastical centres in Wales during the Dark Ages, and in medieval times was an important estate of the Bishop of St David's, who held regular markets and fairs here.

Dinefwr became a centre of royal power associated with the princes of the influential kingdom of Deheubarth, whose most famous prince was Rhys ap Gruffudd, The Lord Rhys (d.1197), who stemmed the Norman conquest during his lifetime. The impressive ruins of Dinefwr Castle are open to the public, and the site of the town of Dinefwr lies buried within the surrounding woods.

The descendants of the princes rose to prominence during Tudor times. Sir Rhys ap Thomas built the first mansion at Newton on the site of the medieval borough town of the same name. He was one of the leading supporters of Henry Tudor and fought by his side at Bosworth. His descendants became the Lords of Dynevor, one of the great landed families of south Wales, with their seat at Newton House. The house and its beautiful parkland landscape are now owned by the National Trust.

The Walks

The area lends itself to a leisurely approach, as there is much to see and appreciate in a relatively small area.

The area is ideal for the less able walker or those wanting a gentle stroll.

Steep sections of path are few and can often be avoided by taking another route.
Parking for the disabled is provided close to the castle and the National Trust provides a car park for visitors to Newton House and the deer park.

The Country Code

Enjoy the countryside and respect its life and work.

- Guard against all risk of fire.
- Fasten all gates.
- Keep your dogs under close control.
- Keep to public paths across farmland.
- Use gates and stiles to cross fences, hedges and walls.
- Leave livestock, crops and machinery alone.
- Take your Litter home.
- Help to keep all water clean.
- Protect Wildlife plants and trees.
- Take special care on country roads.
- Make no unnecessary noise.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Cymru

Y Rheolau Cefn Gwlad

Mwynhewch gefn gwlad a pharchwch ei fywyd a'i waith.

- Gofalwch nad ydych yn achosi tanau.
- Cawch bob gât.
- Gofalwch fod gennych reolaeth ar eich cŵn.
- Cadwch ar lwybrau cyhoeddus ar draws tir amaeth.
- Defnyddiwch gatiau a sticlau i groesi ffensys, perthi a waliau.
- Gadewch lonydd i ddo byw, cnydau a pheiriannau.
- Ewch â'ch sbwriel nôl gyda chi.
- Helpwch ni i gadw pob ffynhonnell dŵr yn lân
- Diogelwch fywyd gwyllt, planhigion a choed.
- Cymerwch ofal arbennig ar ffyrdd cefn gwlad.
- Peidiwch â gwneud unrhyw sŵn diangen.

Adfywio

Y Teithiau Cerdded

Ardal sy'n galw am gerdded hamddenol gan fod yma lawer i'w weld a'i werthfawrogi o fewn brodir gweddol fechan.

Mae'r ardal yn ddelfrydol ar gyfer y cerddwr llai abl neu'r rhai hynny sydd am gerdded wrth eu pwysau.

Ychydig iawn o lethrau serth sydd ar gael ac yn aml iawn gellir eu hosgoi yn llwyr drwy ddilyn llwybr arall. Darperir parcio i'r rhodl ger y castell ac mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn darparu maes parcio ar gyfer ymwelwyr â'r Drenewydd a pharc y ceirw.

Eisiau gwybod rhagor?

Mae'r llwybr hwn yn un o gyfres Llwybrau Sir Gaerfyrddin. I gael rhagor o wybodaeth am y llwybrau yn y gyfres cysylltwch a'r:
Uned Parciau a Cefn Gwlad,
Ty'r Nant, Parc Busnes Trostre, Llanelli, SA14 9UT.
Ffôn: (01554) 747500
www.sirgar.gov.uk

A chithau wedi cerdded un o'n llwybrau, efallai y carech wybod bod yna dri pharc gwledig yn Sir Gaerfyrddin – Pen-bre, Gelli Aur ar bwys Llandeilo, a Llyn Llech Owain ar bwys Gorslas. Mae pob un yn cynnig cyfleoedd rhagorol i bawb fwynhau cefn gwlad.

Want to know more?

This is one of a series of country walks in Carmarthenshire. For further information of walks in this series contact:
Parks and Countryside Unit,
Ty'r Nant, Trostre Business Park, Llanelli, SA14 9UT.
Telephone: (01554) 747500
www.carmarthenshire.gov.uk

Now that you have enjoyed one of our walks you may like to know that there are three Country Parks in Carmarthenshire – Pembrey Country Park, Gelli Aur near Llandeilo and Llyn Llech Owain near Gorslas, all offering excellent opportunities for enjoying the countryside.

Trafnidiaeth Gyhoeddus: I gael y wybodaeth ddiweddaraf am y Gwasanaethau Trafnidiaeth Gyhoeddus Ledled Cymru ffoniwch:

Public Transport: For up-to-date information, phone the All Wales Public Information Helpline:

0870 6082 608